**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/12/2024
Ein cyf/Our ref CG/PO/12/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

12 fed Ionawr 2024

**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 2022/23**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr 2023 ac am ddwyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'm sylw.

O ran paragraff 62 i 64 o'ch adroddiad, gallaf gadarnhau bod gwefan benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer cytundebau rhynglywodraethol domestig terfynol yn cael ei hadolygu'n barhaus. Cafodd ei diweddaru ddiwethaf ar 5 fed Mehefin 2023 adeg cyhoeddi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Gweinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r broses ar gyfer cytuno ar y dyddiad cychwyn ar gyfer cymalau 1 a 3 o'r Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus (y Ddeddf bellach), ac mae hyn yn mynd i'r afael yn rhannol â pharagraffau 63 a 64 o'r adroddiad blynyddol.

Mewn perthynas â'r ddau gytundeb arall y cyfeirir atynt yn y paragraffau hynny o'r adroddiad:

- Mae’r negodiadau ynghylch y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Bil Esgyll Siarcod (y Ddeddf bellach) yn parhau.
- Ni fydd Llywodraeth Cymru yn awr yn rhan o’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato mewn perthynas â'r Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) (y Ddeddf bellach). Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol yn Lloegr a'r Ombwdsmon Tai, eto yn Lloegr, yw hwn.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon yn egluro’r sefyllfa ddiweddaraf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution